# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(100)v5

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

**Gweld y cwestiynau**

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyflwyno'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (60 munud)

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfeiriad Rheoleiddio a Chymwysterau yng Nghymru yn y dyfodol - TYNNWYD YNOL

### 5. Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012 (15 munud)

**NDM5110 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2012.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu)

2012
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**6. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (60 munud)**

**NDM5111 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

Gosodwyd Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 9 Gorffennaf 2012.

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 23 Tachwedd 2012.

**Dogfennau Ategol**
Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifron Cyhoeddus
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7. Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (5 munud)**

**NDM5112 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

**8. Dadl ar y Gyllideb Flynyddol (60 munud)**

**NDM5109 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ar 27 Tachwedd 2012.

Troednodyn:

Yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20.28, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. Y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

2. Yr adnoddau y cytunodd y Trysorlys arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru am y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

3. Cysoni rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig;

4. Cysoni rhwng yr amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o'r Gronfa yn y cynnig; a

5. Cysoni rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Darparwyd y wybodaeth atodol ganlynol i'r Aelodau:

- Nodyn Esboniadol ar y newidiadau rhwng cynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Flynyddol.

**Dogfennau Ategol**
Y Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014
Nodyn Esboniadol ar y newidiadau rhwng cynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Flynyddol
Papur Ymchwil: Cyllideb Derfynol 2013-14 - Y Gwasanaeth Ymchwil

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012